

Atodiad 3

Canlyniadau'r holiadur Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 - 2036

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur ymgysylltu ar Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 - 2036. Ei ddiben yw rhoi darlun clir, cytbwys a thryloyw i'r Cabinet o natur yr ymatebion, lefel y cynrychiolaeth, a'r prif themâu a godwyd, er mwyn llywio penderfyniadau strategol ynghylch datblygu a gweithredu'r Strategaeth.

2. Cefndir i'r Ymgysylltiad

Cynhaliwyd yr ymgysylltiad fel rhan annatod o'r broses o lunio Strategaeth Ysgolion ar gyfer y degawd nesaf. Roedd yr holiadur wedi'i dargedu at ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, cyrff llywodraethu a staff addysg. Cafodd yr ymgysylltiad ei hyrwyddo'n eang ar draws y sector addysg, gan gynnwys drwy'r Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig, Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd, Staff yr Adran Addysg, Penaethiaid Ysgolion Gwynedd ynghyd â Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd.

3. Maint yr Ymatebion a Chynrychiolaeth

Derbyniwyd **19 ymateb** i'r holiadur. Mae proffil yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- **9 Llywodraethwr ysgol**
- **4 Cynrychiolydd ysgol gynradd**
- **6 ymateb o'r categori "Arall"**, gan gynnwys unigolion neu sefydliadau megis staff addysg.

Mae dros hanner yr ymatebion, wedi dod gan lywodraethwyr, sef rhanddeiliaid sydd â dealltwriaeth uniongyrchol o'r system addysg a goblygiadau strategol y Strategaeth.

Fodd bynnag, mae'n bwysig gosod y niferoedd hyn mewn cyd-destun. Mae stad ysgolion Gwynedd yn cynnwys 94 o ysgolion, ynghyd â channoedd o lywodraethwyr, miloedd o staff a chymunedau lleol eang. Mae'r ymatebion yn fwyaf defnyddiol fel tystiolaeth ansoddol.

4. Argraff Gyffredinol o'r Strategaeth

Mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth i gyfeiriad strategol y ddogfen. Mae ymatebwyr yn cydnabod:

- Bod y Strategaeth yn adlewyrchu'n realistig yr heriau demograffig, ariannol ac addysgol sy'n wynebu'r sir.
- Bod gweledigaeth glir yn cael ei gosod ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth ysgolion yn y tymor canolig a'r tymor hir.
- Bod y pwyslais ar yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn briodol ac yn gyson â hunaniaeth a dyheadau Gwynedd.

Ar yr un pryd, nodir bod y ddogfen yn weddol lefel uchel ar adegau.

5. Themâu Allweddol

5.1 Cynaliadwyedd y Rhwydwaith Ysgolion

Mae cynaliadwyedd y rhwydwaith ysgolion yn thema amlwg:

- Mynegir dealltwriaeth o'r angen i adolygu'r ddarpariaeth bresennol, yn enwedig lle bo niferoedd disgyblion yn isel.
- Ceir cefnogaeth i'r egwyddor o ad-drefnu, gan gynnwys uno neu gau ysgolion, er mwyn sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau.

Fodd bynnag, mynegir pryder ynghylch:

- Effaith bosibl cau ysgolion ar gymunedau lleol.
- Goblygiadau i gydlyniant cymunedol a defnydd y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

5.2 Yr Iaith Gymraeg ac Addysg Drochi

Ceir cefnogaeth gref iawn i'r Strategaeth o ran:

- Cadarnhau addysg Gymraeg fel prif ffrwd addysg y sir.
- Datblygu a chryfhau'r ddarpariaeth addysg drochi.

Ar yr un pryd, mae galw am:

- Drefniadau clir i fonitro a gwerthuso cynnydd ieithyddol disgyblion.
- Sicrwydd y bydd ysgolion yn derbyn cefnogaeth ymarferol, hyfforddiant ac adnoddau priodol i wireddu uchelgeisiau ieithyddol y Strategaeth.

5.3 Y Gweithlu Addysg

Mae pryderon am y gweithlu yn thema drawsbynciol:

- Pryder am lwyth gwaith, recriwtio a chadw staff.
- Cydnabyddiaeth bod llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar weithlu medrus, cefnogol a chynaliadwy.

Er bod y Strategaeth yn cydnabod y materion hyn ar lefel strategol, mae galw am gamau ymarferol i gefnogi staff.

5.4 Lles Disgyblion a Phrofiad Addysgol

Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod:

- Lles disgyblion yn ystyriaeth ganolog mewn unrhyw newid strwythurol.
- Maint ysgolion a darpariaeth bugeiliol yn ffactorau allweddol wrth gynllunio'r rhwydwaith ysgolion.

Mae disgwyliad clir y bydd profiad addysgol a lles emosiynol dysgwyr yn ganolog i bob penderfyniad.

5.5 Gweithredu, Llywodraethu a Monitro

Ceir galw clir am:

- Fframwaith gweithredu manwl, gyda chamau, amserlenni a chyfrifoldebau clir.
- Trefniadau cadarn ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso cynnydd y Strategaeth.
- Sicrwydd y bydd y Strategaeth yn parhau'n ddogfen fyw sy'n gallu ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau.

6. Casgliad

Mae'r ymgysylltiad wedi darparu adborth defnyddiol ar gyfeiriad Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 - 2036. Er bod nifer yr ymatebion yn gymharol isel o ystyried maint y stad ysgolion a graddau'r ymgysylltiad, mae'r ymatebion yn nodi themâu cyson a pherthnasol.

Yn gwyno, mae'r adborth yn tanlinellu:

- Cefnogaeth gyffredinol i gyfeiriad strategol y ddogfen.
- Yr angen i gydbwyso cynaliadwyedd ariannol a strategol â sensitifrwydd cymunedol.
- Pwysigrwydd y Gymraeg, y gweithlu a lles disgyblion fel colofnau craidd y Strategaeth.
- Disgwyliad clir am eglurder, tryloywder a chydweithio wrth symud ymlaen i'r cam gweithredu.

Yn gyffredinol, mae'r Strategaeth Ysgolion yn cael ei gweld fel dogfen gadarn, uchelgeisiol a blaengar, gyda chefnogaeth eang i'w gweledigaeth a'i bwyslais ar ansawdd, lles a'r Gymraeg. Ar yr un pryd, mae'r ymatebion yn tanlinellu bod llwyddiant y Strategaeth yn dibynnu'n fawr ar weithredu clir.

Dylid ystyried y dadansoddiad hwn fel tystiolaeth gefnogol i gynorthwyo'r Cabinet wrth wneud penderfyniadau gwybodus ar ddyfodol darpariaeth ysgolion yng Ngwynedd.